

**Y**MYSG papurau fy nhad (W. D. Williams) y cefais y Catalog hwn o lyfrau, a roddwyd ar werth yn y Bala yn 1915, wedi eu catalogio yn drefnus gan John Davies o'r Llyfrgell Genedlaethol. Sefydliad newydd iawn oedd y Llyfrgell yr adeg honno, yn chwe mlwydd oed ac yn disgwyl yn eiddgar am weld agor yr adeilad hardd ar Benglais yn 1916. Yr oedd yn gyfnod o gasglu llyfrau, llawysgrifau ac ati ar gyfer y casgliad cenedlaethol. Trysor pennaf y catalog hwn, fel y gwelir, oedd copi prin iawn o Kynniver Llith a Ban gan William Salesbury (1551), y cyfieithiad Cymraeg cyntaf o'r ysgrifurau. Cyn mynd ati i drafod y catalog a'r gwerthiant gwell dweud gair am hanes y llyfrau sydd ynddo.

### Teulu Thomas Richards Darowen

Casgliad ydoedd a ddaeth o Fryntanat, Llanerfyl, sir Drefaldwyn i Ysgol Ramadeg y Bala tua 1890 i ddilyn gŵr o'r enw Hugh Williams Kyffin. Yr oedd yntau yn ei dro wedi ei etifeddu gan y teulu enwog o glerigwyr yn sir Drefaldwyn, teulu Thomas Richards (1754-1837), ficer Darowen. Bu meibion Darowen i gyd yn ficeriaid neu reithoriaid yn y sir - Richard ym Meifod, David (Dewi Silin) yn Llansilin, Thomas yn Llangynyw, John Lloyd yn Llanwddyn a Lewis yn Llanerfyl - a'r tair merch, Mary, Jane ac Elizabeth yn cadw trefn arnynt. Di-briod oeddent oll heblaw am Dewi. Yn ogystal â bod yn eglwyswyr selog yr oeddent hefyd yn Gymry pybyr, llengar a cherddorol, yn gasglwyr ac yn gopiwyrr llawysgrifau, yn ysgogwyr ac yn gynheiliaid eisteddfodau, yn llythyrwyr brwd, ac yn groesawgar i lu o ymwelwyr oedd a diddordebau cyffelyb megis Gwallter Mechain ac Ifor Ceri, Ieuan Glan Geirionnydd ac Alun. Ac yr oeddant wrth gwrs yn gasglwyr llyfrau di-rif. Mair oedd prif gofnodydd hanes y teulu fel y gwelir mewn llythyrau a dyddiaduron a gadwyd yn ddiogel ganddi.

### Ymsefydlu yn Bryntanat

Fel y deuai oes y naill a'r llall i ben gallwn ddyfalu fod eu trysorau yn cael eu trosglwyddo o un ficerdy i ficerdy arall. Yn Llangynyw (y plwy lle cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol 2003 ar dir Mathrafal) y claddwyd y teulu i gyd heblaw am Mair, a gladdwyd gyda'i thad a'i mam yn Narowen, a Dewi a gladdwyd yn Llansilin, ond nid oes yr un garreg fedd ym mynwent Llangynyw i'w coffáu, er bod dau gofnod o wasanaeth Thomas Richards yn yr eglwys, un ar y beibl mawr ac un ar furlun tu ôl i'r allor. Pan fu farw Lewis, yr olaf o'r brodyr, yn Llanerfyl yn 1860, Mair a Jane yn unig oedd ar ôl, ac yn ddiगतref, ond yn fuan iawn yr oeddent wedi ymsefydlu yn Bryntanat, Llanerfyl ac yno y buont byw weddill eu hoes yn gwarchod traddodiadau a llyfrau eu brodyr athrylithgar. Yr oedd gŵr ifanc o'r enw Hugh Williams Kyffin yn byw gyda hwy erbyn hyn. Bu Jane farw yn 1876 yn 82 oed, a Mair flwyddyn yn ddiweddarach yn 90, ac ar ei hôl hi etifeddodd Hugh, oedd erbyn hyn yn 36 oed, y cyfan.

Pwy felly oedd Hugh Williams Kyffin? Gwyddom ei fod wedi ei eni yn Eglwysbach, sir Ddinbych yn 1841, ac fod ei dad, Hugh Kyffin, yn 70 oed pan anwyd ei unig blentyn. Yr oedd i wraig Frances yn 38 oed

ond, wyth diwrnod wedi bedyddio Hugh, bu farw hithau. Bu farw'r tad hefyd bedair mlynedd yn ddiweddarach. Tua 1850 y clywir sôn am Hugh gyntaf ym mhapurau'r teulu, yn Llangynyw, a chyfeirir ato fel cefnder Elen, merch Dewi Silin. Y mae Mari Ellis yn dyfalu fod Frances yn chwaer i Eleanor Williams, y ferch 'anaddas' yr oedd Dewi Silin wedi mynnu ei phriodi, ac yr oedd y teulu wedi cymryd ei phlant i'w magu pan fu farw ei gŵr. Yr oedd y ddwy yn agos o ran oedran, ac fe fyddai'n esbonio sut y cafodd Hugh yr ail enw Williams. Yr oedd wedi etifeddu tir yn Nyffryn Clwyd, wyth neu naw o ffermydd a thai yn Llanrwst yn ôl cofnod yn nyddiadur Mair, a nodir mewn sawl Cyfrifiad diweddarach ei fod naill ai yn 'land proprietor' neu yn 'living on his own means'. Yng Nghyfrifiad 1861 disgrifir ef hefyd fel 'a ward' sy'n dangos fod ei etifeddiath dan warchodaeth llys o hyd.

Ni wyddom fawr am ei addysg. Mae'n debyg mai dilyn patrwm teuluoedd clerigaidd a boneddigaidd a wnaeth, sef addysg yn y cartref. Yr oedd Thomas Richards, Llangynyw, wedi bod yn athro nodedig yn ysgol Aberriw rhwng 1813 ac 1826, ac yr oedd Mair yn wraig llengar a cherddorol. Dengys lluniau a dynnwyd ym Meifod yn 1857 fod Hugh yn gyfarwydd â'r delyn. Mae'n debyg fod ganddo diwtoriaid personol hefyd, rhai tua'r un oed ag ef ei hun fel John B. Jones o Lanbedr Pont Steffan, a restrir yng Nghyfrifiad 1861, ac Owen Jones ('Manoethwy'), bardd ac ysgolfeistr a fu farw'n ifanc (gw. *Y Bywgraffiadur*); ef mae'n debyg a welir yn y llun gyda Mair a Jane a Hugh.

### Y Casgliad Llyfrau yn dod i'r Bala

I egluro sut y daeth y casgliad llyfrau o Fryntanat, Llanerfyl i Ysgol Ramadeg y Bala rhaid i mi egluro perthynas ein teulu ni â theulu Thomas Richards, Darowen. Yr oedd fy hen daid, y Parch Richard Williams, Llwynithel, Glanrafon wedi dod i gylich y Bala o Bonterwyd, o fferm yr Hirnant. Yr Hirnant hefyd oedd cartref Thomas Richards, Darowen. Yr oedd tad Richard Williams, sef Dafydd Williams yn hanner brawd i Thomas Richards, o ddwy briodas eu mam. Yr oedd fy hen daid felly yn gefnder i Mair a Jane, Richard a Dewi a'r brodyr eraill. Pan yn ifanc, ac yn dangos diddordeb crefyddol, cafodd anogaeth gref gan Thomas Richards i ymuno â'r eglwys, ond mynnodd gadw at ei Fethodistaeth. Daeth i goleg y Bala, priododd Elizabeth Roberts, merch Llwynithel a throes at amaethu, yn gyntaf yng Ngherrigydrudion, ac yna yn Llwynithel, a dal i weinidogaethu.

Er hynny ni chollodd ei gysylltiad â'r teulu Richards. Cafodd Mary, ei ail ferch, fynd i Bryntanat i gadw cwmpeini i'r hen ferched yn eu henaint, tipyn o dasg i ferch ifanc ugain oed. Tybed a oedd Richard Williams wedi rhagweld posibilidau priodas dda iddi hi a Hugh Kyffin? Os do, weithiodd hi ddim, ond mae'n debyg ei bod wedi aros yno i warchod Hugh, wedi marwolaeth Jane a Mair. Y peth nesaf a wyddom amdani yw ei bod wedi priodi John Cadwalader Evans, prifathro ysgol Ramadeg y Bala yn 1885, ac mai yn eglwys y plwyf Llanerfyl y bu'r briodas. Nodir ar y dystygrif briodasol mai Bryntanat oedd ei chartref.

Ganed John Cadwalader Evans yn sir Fflint yn 1853, yn fab i adeiladydd. Aeth i

## KYNNIVER

LLITH A BAN O'R YSGRY  
THUR LAN AC A DDARLEIWR YR ECCLEIJS PRYD  
COMMUN | Y SULLEU A'R GWYLLEU  
TRWYR VLWYDDYN: O CAM-  
BEREFCAT | W. S.

Tit. II.  
Llywchawdr iachlyawd rat Deo i pawp dyn can en  
dloen pynawd ac unnodidat a rhawntau bodol a  
hwy yn sobr ac yn gŵdawn ac yn ddiawd yn y byd ya  
awl can dilyswel am y wnyddid ohaith a llawch-  
at gogoniant y Deo mawr a'n iachawd ysbu  
llywchawd yr haw ac dildod rhawntau er en jerry a  
ywith of enwirid a charity iddo chunan popl priawt  
y ngar a gweithredodd da.

Rom. I.  
Nyd iachlywddu geny vi Ewangel Christ can y galls  
Deo ydwa hi ar erchert i pap yn stedy yathel.

PRINTED at  
London by Rogers & Co.  
for William Sales-  
bury Westgate St  
St. Dunstons Hill  
Anne Domini  
M.D.C.C.

Description.—Title: "Gwa'r O'Brien by" etc. (Taleisian stanza).  
b. Dedication (in Latin) of W.S. to the Bishop of St. David's,  
Llandaff, Bangor and Hereford, sig. A1 and b, text, Dales 1-  
Dales 12axv (leaves unnumbered 1-12axv). A Copy of the  
Kynnes most gracious privilege. b. Colophon. Imprinted Ac-  
a-blank b. Total ff. First two and last not numbered. 88-176.  
10. Folio xxviii. wrongly numbered xxvii.

Condition.—The printed part is intact not a single letter missing  
but some parts of the leaves are frayed and water stained. Ex-  
ceedingly rare. Only one perfect copy is known to exist.—The  
National Library of Wales' Copy.

£105 0 0

Wyneb-ddalen Kynniver Llith a Ban... (1551).



J. C. Evans, Prifathro Ysgol Ramadeg Y Bala a'i wraig, Mary. (Llun oddeutu 1890.)



Jane a Mair Richards, Bryntanat, Llanerfyl yn eistedd; ar y dde Hugh Williams Kyffin ac ar y chwith: Owen Jones (Manoethwy). (Llun oddeutu 1861 LL.G.C. PG 3405)